Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Adroddiad gan y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes

Y Mesur Addysg Uwch

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y Mesur Addysg Uwch ar ddydd Mercher 28 Ionawr 2004. Yn y cyfarfod, bu Don Touhig, Is-ysgrifennydd Gwladol Cymru, yn esbonio darpariaethau allweddol y Mesur, a gafodd ei Ddarlleniad Cyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin ar 8 Ionawr 2004 a'i Ail Ddarlleniad ar 27 Ionawr 2004.

Rhoddwyd y papur ELL(2)-02-04(p.5) i'r Aelodau, oedd yn rhoi gwybodaeth gefndir ac yn nodi darpariaethau allweddol y Mesur. Roedd y papur yn cynnwys crynodeb o'r cymalau sy'n benodol i Gymru (Atodiad A) a throsolwg o'r pecyn cymorth newydd i fyfyrwyr (Atodiad B).

Croesawodd yr Aelodau Rannau 1 a 2, a nodi Rhannau 3, 4 a 5. Mynegodd rhai Aelodau bryder ynghylch y materion canlynol:

- **Dyled Ymhlith Myfyrwyr**; roedd rhai Aelodau o'r farn y byddai maint y ddyled y canfyddir y byddai myfyrwyr yn mynd iddi o dan y cynigion newydd yn digalonni llawer rhag manteisio ar addysg uwch;
- **Y Trothwy ar gyfer Ad-dalu**; £15,000 fyddai'r trothwy arfaethedig ar gyfer cychwyn ad-dalu'r benthyciadau: roedd yr Aelodau o'r farn y dylai'r trothwy hwn fod wedi'i gysylltu â chwyddiant;
- **Anghydraddoldebau ar draws y Ffin;** mynegwyd peth pryder y gallai ffioedd amrywiadwy greu anghydraddoldebau yn y galw a'r cyflenwad ar draws y ffiniau, rhwng Cymru a Lloegr a hefyd rhwng Lloegr a'r Alban; a
- **Trefniadau Cydweithio â Byd Busnes a Diwydiant;** roedd yr Aelodau o'r farn ei bod yn bwysig ystyried y ffyrdd y gallai byd busnes a diwydiannau lleol gyfrannu at y sector addysg uwch.

Dywedodd Jane Davidson AC, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, wrth y Pwyllgor ei bod wedi comisiynu grŵp annibynnol, o dan gadeiryddiaeth yr Athro Teresa Rees, i adolygu mater ffioedd amrywiadwy. Byddai'r grŵp hefyd yn edrych ar ffyrdd o ddefnyddio'r pwerau sydd wedi'u datganoli i roi cymorth i fyfyrwyr. Dywedodd y Gweinidog y byddai unrhyw benderfyniad yn y dyfodol i gyflwyno ffioedd amrywiadwy yng Nghymru wedi ei seilio ar dystiolaeth gadarn a chyngor annibynnol. Ymrwymodd y Gweinidog i roi'r gwybod am hynt y gwaith i'r Pwyllgor, a chadarnhaodd y byddai cyfle i'r Pwyllgor graffu ar yr is-ddeddfwriaeth perthnasol.

Croesawodd y Pwyllgor y cyfle i drafod darpariaethau'r Mesur, ac ni chynigiwyd unrhyw welliannau.

Peter Black AC
Cadeirydd y Pwyllgor

Gwasanaeth y Pwyllgorau